

Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (yn gywir ar 31 Rhagfyr 2022)

Cyflwyniad	2
Cefndir	2
Annibyniaeth a Gwrthrychedd	2
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	2
Aseiad Cymheiriaid Allanol	3
Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd	3
Gweithgareddau Presennol	3
Adnoddau	6
Cynllun Blynnyddol	7
Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (<i>Ch3 2022/23</i>)	10
Canfyddiadau Gwerth am Arian (<i>Ch3 2022/23</i>)	11
Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol	11
Gwerth Ychwanegol	11
Perfformiad	12
Gweithredu Cynllun Archwilio	14
Argymhellion	14
Casgliad	15

Atodiad A	Statws Adroddiad ar 31 Rhagfyr 2022
Atodiad B	Cynllun Archwilio
Atodiad C	Crynodeb o'r Argymhellion
Atodiad D	Argymhellion agored coch a choch / oren
Atodiad E	Argymhellion coch a choch / oren wedi'u cwblhau ers y Pwyllgor diwethaf

Paratowyd gan: Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol yn nodi perfformiad o ran y Cynllun Archwilio Mewnol. Mae'n crynhoi'r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol.

Mae'r adroddiad cynnydd yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2022, ac yn dilyn y diweddariadau a roddwyd yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2022. Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro i roi crynodeb o weithgareddau archwilio, canlyniadau a chynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2022/23.

Cafodd Cynllun Archwilio 2022/23 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwaith archwilio bob blwyddyn ac mae'n cyd-fynd â threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, gan ymateb hefyd i unrhyw newidiadau i'r risgiau a wynebwr gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Rheolwr Archwilio. Yn unol â darpariaethau Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (1100), cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio. Ni fu unrhyw achosion o amharu ar annibyniaeth na gwrthrychedd.

1.3 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Cwblhaodd yr archwilwyr eu hadolygiadau personol ddiwedd y flwyddyn a ffurfioli eu hamcanion ar gyfer 2022/23. Cyn trafod perfformiad, cwblhaodd yr archwilwyr eu hasesiad sgiliau o ran Fframwaith Cymwyseddau Proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (SAM).

Llywiodd canlyniadau adolygiadau personol ac asesiadau sgiliau adolygiad y Rheolwr Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safon 1300), y cydnabuwyd gwaelodlin gyffredinol gref o wybodaeth a sgiliau ohoni ar draws y tîm archwilio.

1.4 Asesiad Cymheiriaid Allanol

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) yn gofyn bod asesiad allanol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Cwblhawyd yr asesiad cymheiriaid allanol diweddaraf gan y Pennaeth Archwilio o Rondda Cynon Taf ac adroddodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2018.

Yn ychwanegol i'r manylion a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf a Tachwedd 2022, mae'r asesiad yn cael ei gwblhau gan y Prif Archwilydd yn Sir Fynwy / Casnewydd sydd wedi'i glustnodi i wneud yr asesiad cymheiriaid o wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd.

Y bwriad yw cyflwyno'r asesiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2023.

2 Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd

2.1 Gweithgareddau Presennol

Yn ystod chwarter tri 2022/23, blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a bwrw ymlaen â chyflawni ymgysylltiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod ar gael a rhoi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau COVID-19 Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Cynllun Cartrefi i Wcráin, i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei wneud yn bennaf ar sail bwrdd gwaith, er bod ymweliadau safle yn digwydd ar gyfer archwilio sefydliadau, a lle mae angen arsylwi gweithrediad rheolaethau corfforol neu arferion gweithredu.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o archwiliadau a'r statws adrodd yn ystod y flwyddyn bresennol tan 31 Rhagfyr 2022, lle y cwblhawyd 30 o ymgysylltiadau archwilio newydd hyd at y cam allbwn o leiaf a 19 ymgysylltiad archwilio o'r flwyddyn flaenorol. Dangosir crynodeb o'r allbynnau a'r farn archwilio yn y flwyddyn dan sylw isod.

Ffigur 1. Allbynnau a barn ar archwiliadau (ar 31 Rhagfyr 2022)

Statws	Nifer yr archwiliad au a gwblhawyd	Barn				
		Effeithiol	Effeithiol gyda lle i wella	Annigonol ac angen gwelliant mawr	Anfoddhaol	Ni roddwyd barn
Drafft	12	3	8	1	0	0
Terfynol	37	5	20	5	0	7
CYFAN SWM	49	8	28	6	0	7
	30	Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd				
	19	Ymgysylltiadau Archwilio a Orffennwyd o 2021/22				

Ffigur 2. Allbynnau a barn archwilio 2022/23 (ar 31 Rhagfyr 2022)

Rhif.	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
1.	Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd (2021/22)*	Effeithiol
2.	Gwasanaeth Ewch â Fi Adre	
3.	Cynlluniau CGI (gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf)	
4.	Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany)	Effeithiol gyda lle i wella
5.	Budd-dal Tai / Lwfans Tai Lleol / Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor	
6.	Incwm a Dyledwyr	
7.	Iechyd a diogelwch	
8.	Llywodraethu Contractau Hamdden	
9.	Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yng Nghaerdydd	
10.	Cantonian	
11.	Ysgolion â Balansau Dros Ben - Thematig	
12.	Taliadau Staff Asiantaeth	
13.	Trefniadau Rheoli Risg	
14.	Caffael	
15.	Storfeydd Brindley Road	
16.	Diogelu	

Rhif.	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio	
17.	Maes Carafanau Caerdydd		
18.	Ysgol Farchogaeth Caerdydd		
19.	Contract Trin Gwastraff Organig Caerdydd		
20.	Ysgol Gynradd Glyncoed		
21.	Arlwyo mewn ysgolion sydd wedi Optio Allan		
22.	Cartref Cŵn Caerdydd		
23.	Amrywiadau Contract		Annigonol, angen gwelliant mawr
Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn'			
24.	HRhR - Prynu a Thaliadau	Ymgynghoriaeth, ac ardystio, cyngor canllawiau	
25.	CRSA - Cyflogres ac Adnoddau Dynol		
26.	Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd		
27.	Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd		
28.	Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg		
29.	Ymgynghoriaeth Gwasanaeth / Prosesau		
30.	Grant Gwella Addysg 2021/22		
Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol			
31.	Prynu a Thaliadau - profion yn ystod y flwyddyn	Effeithiol	
32.	Comisiynu a Chaffael - Pobl a Chymunedau		
33.	Prif Gyfrifyddu		
34.	Archwiliad Crud i'r Bedd	Effeithiol gyda lle i wella	
35.	Teleofal		
36.	Llywodraethu Gwybodaeth		
37.	Parhad Busnes a Rheoli Digwyddiadau		
38.	Rheoli perfformiad		
39.	Cardiau prynu		
40.	Cynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau		
41.	Adnoddau – Sicrwydd Cyn Contract		
42.	Incwm a dyledwyr - Gwasanaethau Cymdeithasol		
43.	Iechyd a Diogelwch Ysgolion - Thematig		
44.	Gwerth am arian mewn Mentrau Digidol		
45.	Lleoliadau Plant		Annigonol, angen gwelliant mawr
46.	Cytundebau Adran 106		

Rhif.	Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd	Barn Archwilio
47.	Milltired a Chynhaliaeth	
48.	Cyfrifiadura Cwmwl	
49.	Sicrwydd Cyn Contract - Gwasanaethau Plant	

*Gwnaed trefniadau i'r archwiliad o 'Grantiau Covid Llywodraeth Cymru – Sicrwydd' gael ei oruchwylio gan Reolwr Gweithredol arall yn yr adran Gyfrifeg, ac i dynnu unrhyw ymwneud yn yr adroddiad archwilio oddi ar y Rheolwr Archwilio, sydd wedi cynghori ar ddylunio a gweithredu'r rheolaethau wrth weinyddu'r grantiau hyn.

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hynny fel a ganlyn:

Ffigur 3. Archwiliadau cyflawn heb farn sicrwydd (ar 31 Rhagfyr 2022)

Archwilio	Sylwadau
Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd	Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon, 2021/22
Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd	
Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg	
Ymgynghoriaeth Gwasanaeth a Phrosesau – Cynllun Cartrefi i Wcráin a Grantiau COVID-19 Llywodraeth Cymru	Cydymffurfio, rheolaeth ac arweiniad gwrth-dwyll
Grant Gwella Addysg 2021/22	Ardystio grant
HRhR - Prynu a Thaliadau	Cwblhau Hunanasesu Rheoli Risg (HRhR) Ymarferion gyda chleientiaid
CRSA - Cyflogres ac Adnoddau Dynol	

Dangosir statws yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn **Atodiad A**.

2.2 Adnoddau

Mae swydd Prif Archwilydd newydd wedi cael ei hysbysebu'n eang gyda dyddiad cau o 16 Ionawr 2023. Mae hyn yn unol â'r diweddariad o ran strwythur y tîm archwilio a ddarparwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Tachwedd, lle cafodd Aelodau wybod am y penderfyniad i fuddsoddi mewn swydd Prif Archwilydd ychwanegol, i wella craidd cadarn o uwch swyddogion o fewn y tîm ac i beidio â llenwi swyddi gwag ar raddau is.

Ers diweddariad diwethaf y Pwyllgor, mae cais ymddeol hyblyg wedi'i gymeradwyo ar gyfer Archwilydd y Grŵp lle bydd eu horiau'n lleihau 10 awr yr wythnos (o 37 i 27) o 1 Ebrill 2023. Mae gwybodaeth am hyn, a mân addasiadau yn oriau gwaith aelodau eraill o'r tîm archwilio sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2023/2024 wedi'u cynnwys yn eitem agenda 8.2 - Siarter Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio 2023/24.

Mae'r pwyllgor wedi cael gwybod am effaith swyddi gwag ar gynnydd y cynllun archwilio yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn ac, er mwyn cefnogi darpariaeth archwilio mewn meysydd TG a llywodraethu corfforaethol eleni, dyfarnwyd contract ar gyfer pedwar ymgysylltiad archwilio dan gyfarwyddyd y Rheolwr Archwilio. Ar adeg adrodd, mae'r ddau archwiliad TG ar y cam gwaith maes gweithredol. Bu rhai achosion o salwch hefyd sydd wedi cael effaith ar yr adnoddau staff oedd ar gael yn ystod chwarter tri.

Gan fod pob archwilydd gweithredol a'r cynorthwy-ydd archwilio yn cofnodi'r holl amser gwirioneddol a weithiwyd, mae gwybodaeth rheoli ddefnyddiol ar gael at ddibenion cynllunio, monitro ac adrodd. Roedd y data taflen amser yn cynnwys 891 diwrnod taladwy hyd at ddiwedd chwarter tri, yn erbyn cynllun pro-rata o 1078 diwrnod. Mae nifer is y diwrnodau taladwy wedi'i briodoli'n bennaf i'r swydd uwch archwilydd wag, ond hefyd wedi'i effeithio gan fwy o ddefnydd ar gyfer amser gweinyddol a rheoli, ac ymgysylltu â staff mewn mentrau datblygu a lles corfforaethol. Cafwyd rhai achosion o salwch byrdymor, er bod effaith hyn ar adnoddau staff wedi bod yn gymharol fach.

Mae amser ar gael at ddibenion datblygu archwilio, ac mae gan un Archwilydd gyllid wedi'i neilltuo er mwyn astudio'r Cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISA) gydag ISACA.

2.3 Cynllun blynyddol

Mae Cynllun Archwilio 2022/2023 i'w weld yn Atodiad B. Er y caiff ei bennu'n flynyddol, mae'r Cynllun Archwilio'n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau gydol y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a chymorth rheolwyr. Mae'n bosibl y caiff newidiadau yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Er gwybodaeth i'r pwyllgor, amlygir yr holl archwiliadau a oedd â statws drafft ar ddiwedd 2022/2023 yn 'llwyd' er mwyn gallu olrhain cwblhau yr archwiliadau hyn, tra'n darparu gwahaniad gweladwy o'r ymgysylltiadau archwilio a geir yng Nghynllun Archwilio 2022/2023.

Mae'r gwaith o weithredu Cynllun Archwilio 2022/2023 wedi bod yn sylweddol is na'r targed yn chwarter tri. Mae hyn wedi'i briodoli'n rhannol i lefel is o adnoddau staff fel yr amlinellir yn adran 2.2. 'Adnoddau', ac i ryw raddau oedi ynysig wrth dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn dod â'r gwaith maes archwilio i ben. Mae'r sefyllfa yn chwarter tri o ran gweithredu'r Cynllun Archwilio i'w gweld yn adran 3.2 'perfformiad'.

Mae'r Cynllun Archwilio wedi cael ei adolygu ac mae'r Rheolwr Archwilio wedi nodi deugain archwiliad yn weddill o ran cwmpas i weithio arnynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r archwiliadau wedi'u targedu at ddarparu lledaeniad digonol o sicrwydd, sy'n lliniaru unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2022/2023. Mae'r rhain wedi'u grwpio i archwiliadau blaenoriaeth 1 (25 archwiliad) ac archwiliadau blaenoriaeth 2 (15 archwiliad) ac maent wedi'u cynnwys yn y tablau isod.

- Dylai'r holl **archwiliadau blaenoriaeth 1** gael eu targedu i'w cyhoeddi i gam adroddiad drafft erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Byddai cyflawni'r archwiliadau hyn yn sicrhau bod pob maes sylfaenol o'r cynllun yn cael eu gweithredu, bod meysydd craidd o lywodraethu corfforaethol wedi'u hadolygu, a bod digon o sylw ar lefel cyfarwyddiaeth. Byddai cyflawni'r archwiliadau hyn yn cyflawni 52% o'r Cynllun Archwilio yn erbyn targed o 70%.
- Dylai **archwiliadau blaenoriaeth 2**, sy'n cynnwys yr archwiliad thematig o reoli perfformiad ar draws pob cyfarwyddiaeth, ac archwiliadau lefel cyfarwyddiaeth ehangach, ddechrau pan fydd yr archwilydd a ddyrannwyd wedi cyflwyno eu harchwiliadau blaenoriaeth 1.
- Y bwriad yw cwblhau unrhyw archwiliadau blaenoriaeth sydd heb eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol yn chwarter un 2023/2024, a gwneir darpariaeth ar ei gyfer yng Nghynllun Archwilio 2023/2024 gyda chais am gymeradwyaeth y Pwyllgor ar 21 Mawrth 2023.

Ochr yn ochr â'r dull wedi'i dargedu hwn, bydd angen cynyddu'r gweithgarwch ogyflawni archwiliadau yn ystod chwarter pedwar, i'w reoli drwy drefniadau monitro ac adolygu, a'i

gynorthwyo'n rhannol gan y pedwar archwiliad sy'n cael eu cyflawni o dan gontract o fewn yr amserlen hon.

Ffigur 4. Archwiliadau Blaenoriaeth 1

Statws (ar 31.12.2022)	Aseiniad
Ysgrifennu Adroddiadau / Adolygiad	Gorfodi Rheoli Gwastraff
	Bargen Ddinesig 2021/22
Gwaith Maes Archwilio	Archwilio TGCh - Llywodraethu Seiber-Ddiogelwch
	Cydymffurfiaeth SDD DCT y Gyfarwyddiaeth
	Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog
	Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwys Norwyaidd 2021/22
	Gwaredu Tir ac Adeiladau
Dechrau Gwaith Maes	Treth Gyngor
	Pensiynau a Buddsoddiadau
	Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2021/22
Cynllunio	Moeseg a Gwerthoedd
	Partneriaeth / Sicrwydd Hyd Braich
	Profion yn ystod y flwyddyn - Prynu a Thaliadau
	Profion yn Ystod y Flwyddyn - Cyflogres ac AD
	Cwynion a Chanmolgiaethau
	Canolfan Derbyn Larymau
	Rheoli Perfformiad – Datblygu Economaidd
	Ysgol Uwchradd y Dwyrain
	DILYNIANT - Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd
	Dŵr Gwyn Rhyngwladol
Heb ddechrau eto	Awdurdod yr Harbwr
	Iechyd a Diogelwch - Addysg a Dysgu Gydol Oes
	Menter Twyll Genedlaethol
	Ysgol Uwchradd Fitzalan
	Ysgol Gynradd Baden Powell

Ffigur 5. Archwiliadau Blaenoriaeth 2

Statws (ar 31.12.2022)	Aseiniad
Cynllunio	Rheoli perfformiad - Oedolion, Tai a Chymunedau
	Rheoli Perfformiad – Addysg a Dysgu Gydol Oes
	Rheoli Perfformiad - Pobl a Chymunedau
	Rheoli Perfformiad - Gwasanaethau Plant
	Rheoli Perfformiad - Adnoddau
	Rheoli Perfformiad - Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
	Rheoli Perfformiad - Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
	Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
	Gwastraff Masnachol
Heb ddechrau eto	Llogi Sgipiau
	Tîm Dyletswydd Argyfwng
	Gofal Cartref
	Diogelwch Cymunedol
	Dirprwyo a gwneud penderfyniadau
	Gofal Preswyl

2.4 Canfyddiadau critigol neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg (Ch3 2022/2023)

Yn ystod chwarter tri, mae un adroddiad drafft wedi cael ei gyhoeddi gyda'r farn 'annigonol ac angen gwelliant mawr'. Mae'r archwiliad, o amrywiadau cyswllt, yn ymwneud â newidiadau ffurfiol i gontract sy'n ymwneud â phris, maint, costau, telerau ac ati, wedi ei gyhoeddi ar ffurf drafft. Bydd ystyriaeth a thrafodaeth y rheolwyr yn dilyn cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau, ac ar yr adeg honno bydd y sgôr sicrwydd a'r argymhellion yn cael eu cadarnhau.

Ni wnaeth profion seiliedig ar sampl nodi achosion lle nad oedd amrywiadau contract wedi'u cymeradwyo'n briodol, ond ystyriwyd nad oedd systemau'n cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn cael cofnod canolog cyflawn o amrywiadau contract. Roedd gwybodaeth amrywiadau yn cael ei chofnodi ar Gofrestr Systemau a Chontractau Caffael Electronig y Cyngor (Proactis) ac nid oedd yn cael ei hintegreiddio gyda'r llyfr cyfrifon ariannol (SAP), sy'n cynrychioli risg i gyflawnder a chywirdeb gwybodaeth gorchymyn amrywiadau a gedwir. Heb gofnod canolog cyflawn, nid

yw'n bosibl rhoi'r sicrwydd angenrheidiol bod amrywiadau'n cael eu hadrodd yn briodol ac yn cael eu cymeradwyo'n gyson yn unol â gofynion corfforaethol.

Mae gofynion deddfwriaethol pellach yn dod i rym y mae angen i'r sefydliad ddechrau paratoi ar eu cyfer. Disgwylir i'r Bil Caffael ddod i rym yn y 12-18 mis nesaf sydd â'r nod o geisio gwella tryloywder o ran caffaeliadau cyhoeddus ac sy'n ei wneud yn ofynnol i adrodd mwy ar gaffaeliadau cyhoeddus yn gyffredinol, gan gynnwys amrywiadau contract. Mae'r archwiliad wedi dadlau y dylid defnyddio dull seiliedig ar brosiectau i adolygu, a diweddarau lle bo angen, systemau a phrosesau cyfredol, a sicrhau bod yr holl gyfrifoldebau wedi'u diffinio a'u deall yn glir ar draws y Cyngor ac yn cyd-fynd â gofynion y Bil. Wrth wneud unrhyw ddiweddariadau i'r system mae cyfle i wneud y defnydd gorau o dechnoleg ac awtomeiddio. Ymhellach i hyn argymhellwyd system o hyfforddiant ac arweiniad ar systemau a chyfrifoldebau.

2.5 Canfyddiadau Gwerth am Arian (Ch3 2022/2023)

Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau ar y thema gwerth am arian yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gan fwyafrif llethol yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, sy'n cynnig lefel foddhaol gyffredinol o sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, o fewn yr archwiliadau â barn sicrwydd is, roedd bylchau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn rhoi sicrwydd bod amcanion y gwasanaethau hyn yn cael eu bodloni, gyda sylw priodol i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

3 Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol

3.1 Gwerth Ychwanegol

Cynhaliwyd cyfarfodydd Perthnasoedd Rheolwyr gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr wrth ddatblygu'r cynllun archwilio yn chwarter pedwar 2021/2022. Yna cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd bob chwarter yn 2022/23, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall y blaenoriaethau a'r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a'r newidiadau i systemau neu brosesau a gynlluniwyd neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio'r gwaith o gynllunio ymgysylltiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol yn y flwyddyn hyd yma, gyda chyfraddau boddhad yn 100% gan gleientiaid sydd wedi ymateb, gydag 88% yn nodi bod eu harchwiliad wedi 'ychwanegu gwerth'.

Yn yr allbynnau archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (sef 31 Rhagfyr 2022), roedd 237 o argymhellion wedi eu gwneud, cytunwyd ar 96 o argymhellion, ac mae 141 yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio drwy allbynnau archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

Ffigur 6. Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd

Sgôr	Argymhellion a wnaed	Argymhelliad a gytunwyd	Argymhellion sy'n cael eu hystyried
Coch	1	0	1
Coch / oren	77	41	36
Oren / gwyrdd	155	53	102
Gwyrdd	4	2	2
CYFANSWM	237	96	141

Ni dderbyniwyd un argymhelliad yn ymwneud ag adolygiad rheoli contract a adroddwyd yn 2021/2022, yn ddiweddar. Yr argymhelliad oren / gwyrdd oedd i gamau gael eu cymryd i wirio bod yswiriant indemniad proffesiynol ar waith i'r rhai a gyfarwyddwyd i wneud gwaith cyfreithiol (sef cyfreithwyr a rhwystrau) ar fframwaith penodol. Er mwyn bod yn rhan o'r Fframwaith, mae'n rhaid i drefniadau priodol ar gyfer yswiriant indemniad proffesiynol fod ar waith ac ar y sail honno, mae'r rheolwyr o'r farn nad oes angen gwirio'r darpariaethau hynny pan fydd gwaith yn cael ei wneud ar gontract allanol o dan y Fframwaith.

3.2 Perfformiad

Fel yr amlinellir yn adran 2.1 ('Gweithgareddau Presennol'), blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio yn ystod chwarter un oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a chyflawni mwy o ymrwymadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Amlinellir y prif resymau pam fod y gwasanaeth archwilio yn gweithredu ar gapasiti is yn ystod y chwarter yn 2.2 ('Adnoddau'). Ar ddechrau'r flwyddyn, pennwyd targed arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Cynllun Archwilio ar 70% a'i integreiddio i brosesau cynllunio archwilio a rheoli perfformiad. Ystyriwyd bod y targed yn ymestynnol ac yn gyraeddadwy, ac mae'r prif reswm dros lithro yn erbyn y mesur hwn yn ymwneud â'r swydd wag barhaus y mae ymarfer recriwtio ar y gweill ar ei chyfer, fel y nodir yn adran 2.2 ('Adnoddau'). Cymerwyd camau i flaenoriaethu'r

archwiliadau i'w cyflwyno yn ystod chwarter 4, a chynyddu'r gweithgarwch cyflawni, y darperir manylion ar ei gyfer yn adran 2.3 ('Cynllun Blynyddol').

Mae nifer o archwiliadau wedi'u cwblhau o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, fel y dangosir yn ffigur 1 a 2, ond mae'r rhan fwyaf o'r archwiliadau a gwblhawyd eleni ar y cam drafft. Pan fydd adroddiadau wedi'u hystyried a bod rheolwyr wedi ymateb iddynt, bydd nifer yr archwiliadau a gwblheir yn cynyddu, yn ogystal â mesur yr archwiliadau a gwblheir fesul cyfwerth ag amser llawn. Rhoddir sylw i ymgysylltu â rheolwyr gyda'r bwriad o gwblhau archwiliadau drafft.

Mae canran yr adroddiadau drafft a gwblhawyd mewn pedair wythnos wedi bod yn gwella bob chwarter ac yn adfer o'r perfformiad yn chwarter un. Bydd pwysigrwydd adrodd ar archwiliadau'n brydlon yn ffocws parhaus eleni.

Mae Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cymryd diddordeb penodol mewn perfformiad yn erbyn canran yr argymhellion archwilio a weithredwyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, sydd wedi bod yn is na'r targed ers nifer o flynyddoedd. Ar ôl gwelliant mewn perfformiad yn erbyn y mesur hwn yn chwarter dau, sy'n caniatáu am lithriad o bythefnos waith o'r targed camau gweithredu a osodwyd i ddangos eu bod wedi eu cyflawni, mae perfformiad wedi gostwng rywfaint. Mynychodd y Rheolwr Archwilio gyfarfod yr Uwch Dîm Rheoli ar 10 Ionawr 2023 i gyflwyno a thrafod y sefyllfa wrth ymateb i argymhellion mewn modd amserol a phwysleisio pwysigrwydd cynnal cyfathrebu da a chlir wrth i argymhellion fynd rhagddynt, ac os bydd unrhyw anawsterau neu amgylchiadau newidiol.

Ffigur 7. Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer 2022/2023 (hyd yma)

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad 2021/22	Targed 2022/23	Canlyniad Ch1	Canlyniad Ch2	Canlyniad Ch3
Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd	61%	70%	13%	25%	29%
Nifer gyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALI	147	150	37	68	103
Nifer gyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul CALI	7.4	9	1.43	3.13	4.82
Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos	92%	90%	80%	84%	87%
Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni	68%	80%	56%	71%	65%

3.3 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gynhelir, caiff archwiliadau eu dyrannu er mwyn sicrhau bod sicrwydd eang erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio.

Fel yr amlinellir yn adran 2.4 – Gweithgareddau Presennol, cwblhawyd pump ar hugain o ymgysylltiadau archwilio newydd yn y flwyddyn ariannol 2022/23 hyd yma. Dangosir sefyllfa bresennol Cynllun Archwilio llawn 2022/2023 yn **Atodiad B** – Cynllun Archwilio.

3.4 Argymhellion

Mae crynodeb o'r camau archwilio agored wedi'i gynnwys yn **Atodiad C**, i gefnogi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fonitro ac adolygu ymateb rheolwyr i'r argymhellion a godwyd.

Wedi'u cynnwys yn **Atodiad D** mae'r argymhellion coch a choch/oren agored gan gynnwys yr ymateb rheoli presennol er gwybodaeth i'r Pwyllgor a'i waith monitro. Mae **Atodiad E** yn cynnwys yr argymhellion coch a choch/oren sydd wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio. Rhoddir argymhellion melyn/gwyrdd a gwyrdd i'r Pwyllgor trwy lwybr ar wahân.

Mae'r tabl isod yn dangos yr achosion lle mae dyddiadau gweithredu wedi'u diwygio fel arfer gan gleientiaid archwilio, ar gyfer archwiliadau nad ydynt yn cael eu cydnabod fel rhai y cyfeirir atynt yn llawn (ar 31.12.2022). Adroddir am y sefyllfa yn erbyn argymhellion, i fonitro cynnydd ac i dargedu trafodaethau ar reoli risg yn effeithiol, mewn cyfarfodydd rheoli perthnasoedd bob chwarter.

Ffigur 8. Dyddiadau diwygiedig ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a'r statws

Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio	Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig	Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith	Camau gweithredu ar agor o hyd
Sylfaenol	22	20	2
Corfforaethol	24	18	6
Allanol a grantiau	13	9	4
Oedolion, Tai a Cymunedau	40	25	15
Gwasanaethau Plant	29	23	6
Datblygu Economaidd	39	30	9
Addysg a Dysgu Gydol Oes	86	59	27
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	45	33	12
Pobl a Chymunedau	1	1	0
Adnoddau	57	44	13
Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol	8	8	0
Rheoli Gwastraff	81	78	3
	445	348	97
Ysgolion	187	133	54
CYFANSWM	632	481	151

DS - Dylid nodi bod y tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2022, tra bod atodiadau'r traciwr argymhellion yn dangos y sefyllfa fanwl yn erbyn pob argymhelliad ar y dyddiad agosaf posibl i bob cyfarfod Pwyllgor.

4 Casgliad

4.1 Crynodeb

Yn ystod chwarter tri 2022/23, mae blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio wedi parhau i gyflawni cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a chyflawni ymgysylltiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae swydd Prif Archwilydd newydd wedi cael ei hysbysebu'n eang gyda dyddiad cau o 16 Ionawr 2023. Mae hyn yn unol â'r diweddariad o ran strwythur y tîm archwilio a ddarparwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Tachwedd, lle rhoddwyd gwybod i Aelodau o'r penderfyniad i fuddsoddi mewn swydd prif archwilydd ychwanegol, i wella craidd cadarn o uwch swyddogion o fewn y tîm ac i beidio â llenwi swyddi gwag ar raddau is.

Mae'r gwaith o weithredu Cynllun Archwilio 2022/2023 wedi bod yn sylweddol is na'r targed yn chwarter tri. Mae hyn wedi'i briodoli'n rhannol i lefel is o adnoddau staff fel yr amlinellir yn adran

2.2. 'Adnoddau', ac i ryw raddau oedi ynysig wrth dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani er mwyn dod â'r gwaith maes archwilio i ben. Mae'r sefyllfa yn chwarter tri o ran gweithredu'r Cynllun Archwilio i'w gweld yn adran 3.2 'perfformiad'.

Mae'r Cynllun Archwilio wedi cael ei adolygu ac mae'r Rheolwr Archwilio wedi nodi deugain archwiliad yn weddill o ran cwmpas i weithio arnynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r archwiliadau wedi'u targedu at ddarparu lledaeniad digonol o sicrwydd, sy'n lliniaru unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2022/2023.

Byddai cyflawni'r archwiliadau a flaenoriaethwyd yn sicrhau bod pob maes sylfaenol o'r cynllun yn cael eu cyflawni, bod meysydd craidd o lywodraethu corfforaethol wedi'u hadolygu, a bod digon o sylw ar lefel cyfarwyddiaeth.

Ochr yn ochr â'r dull wedi'i dargedu hwn, bydd angen cynyddu'r gweithgarwch ogyflawni archwiliadau yn ystod chwarter pedwar, i'w reoli drwy drefniadau monitro ac adolygu, a'i gynorthwyo'n rhannol gan y pedwar archwiliad sy'n cael eu cyflawni o dan gontract o fewn yr amserlen hon.

Statws Adroddiad (yn gywir ar 31 Rhagfyr 2022)

Barn Archwilio	Maes Archwilio	Argymhellion Risg Uchel		Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau)
		Arfaethedig	Cytunwyd	
Sylfaenol / Uchel				
Effeithiol	Adnoddau – Incwm a Dyledwyr (dygwyd ymlaen o 2021/22)			Drafftiau wedi'u Cyhoeddi
	Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd (2021/22)			
	Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany)			
	Budd-dal Tai / Lwfans Tai Lleol / Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor			
	Pobl a Chymunedau - Comisiynu a Chaffael (dygwyd ymlaen o 2021/22)			
	Prif Gyfrifyddu (dygwyd ymlaen o 2021/22)			
